# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 16EG MAWRTH, 2021**

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679 868**

**einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cym**

(DOSBARTHWYD 09/03/21)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Dylan Bullard | Aelod Lleol |
| Peter Read | Abererch Local Member |
| Hefin Underwood | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Cynrychioli Plas Heli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Cynghorydd Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Jenny Moss | Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Gareth Thomas | Cabinet Member of Economic Development |

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2019 fel rhai cywir

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR** 8 - 36

Cyflwyno adroddiad Rheolwr yr Harbwr

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 12 Hydref, 2021

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 15/10/19

**Presennol:** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd)

W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol) Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli) Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli) Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a'r Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Hefin Underwood yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peter Read ynghyd â David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli) ac Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATER BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2019, fel rhai cywir.

Gwnaed cais i ganlyniadau'r adolygiad hydrograffeg a gynhaliwyd Mawrth 2019 gael ei rannu gyda'r aelodau.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Rheolwr Harbwr yn rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod Mawrth 2019 – Hydref 2019. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod archwiliad manwl o gymhorthion mordwyo Pwllheli gan arolygwyr Awdurdod Goleudy Tŷ'r Drindod yn cael ei gynnal Hydref 2019 – nid oedd y swyddogion yn rhagweld problemau

- Bod datblygiadau megis gorsaf dywydd newydd, gwe gamerâu ac uwchraddio band eang yn gwella mynediad at wybodaeth amserol i gwsmeriaid
- Bod y cwmnïau Parcio a Lansio yn lansio nifer o gychod heb iddynt fod yn arddangos sticeri cofrestru PW a PC priodol. **Cynigiwyd i gynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol drafod gyda'r cwmnïau a'u hannog i gofrestru**
- Bod cwsmeriaid yr Hafan a'r Harbwr wedi croesawu'r cyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer tanwydd disel coch. Er hynny, yn dilyn ymgynghoriad a gweithrediad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar danwydd disel a ddefnyddir mewn cychod pleser preifat a'r penderfyniad na all y DU gyflenwi Disel Coch, bydd bosib angen i'r Hafan gyflawni cyflenwad disel gwyn yn unig at y dyfodol. Pe bydd unrhyw newid yn digwydd yna fe fydd y swyddogion yn hysbysebu defnyddwyr ar unwaith.
- Bod gwaith cynnal a chadw Cei'r Gogledd wedi mynd yn anoddach dros y blynyddoedd diwethaf gyda diffyg adnoddau, arian a staff i wneud y gwaith angenrheidiol. **Erfyniwyd ar swyddogion i roi sylw priodol i'r ardal a chynnal trafodaethau gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â rhannu cyfrifoldebau am y gwaith cynnal a chadw**
- Cyfeiriwyd at grynodeb bras o gyllidebau'r Harbwr a'r Hafan a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Medi 2019.
- Argymell codi 2% ar ffioedd Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn 2020. **Derbyniwyd yr argymhelliad.**
- Argymell codi ffioedd lansio dyddiol o £10 i £15. Amlygwyd nad oedd y ffioedd lansio wedi cynyddu ers dros 18 mlynedd ac y byddai'r cynnydd yma yn hwb i godi incwm. Ategwyd na fyddai unrhyw addasiad i'r ffioedd eraill. **Derbyniwyd yr argymhelliad gyda chais i'r swyddogion annog defnyddwyr i gofrestru a defnyddio'r gwasanaeth**
- Nifer cychod sydd yn cael eu storio ar y lan ers rhai blynyddoedd yn ychwanegu at y broblem o storio cychod. **Awgrymwyd adolygu'r sefyllfa gan ystyried codi rhent yn ddibynnol ar y cyfnod 'aros ar y lan'**
- Bod system gyfrifo'r Hafan bellach wedi ei ganoli yn adran Incwm Cyngor Gwynedd Caernarfon. O ganlyniad, adroddwyd bod modd diddymu'r tal ychwanegol o 5% am gost angorfa flynyddol yn yr Hafan drwy daliadau ddebyd uniongyrchol
- Bod gwaith ar orsaf cychod newydd yr RNLI bellach wedi dechrau. Adroddwyd mai Wynne Construction sydd yn gyfrifol am y datblygiad. Ategwyd y byddai hwn yn atyniad newydd a chyffrous i'r ardal.
- Digwyddiad y British Dragon Association ynghyd a'r Jester Challenge wedi bod yn llwyddiannus.
- Cafwyd diweddariad ar ddigwyddiadau Plas Heli lle adroddwyd bod 1060 o gystadleuwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau, 8 prif gystadleuaeth wedi ei cynnal, 31 aelod ifanc yn aelodau o'r Gymdeithas Hwylio (4 o'r rhain yn cynrychioli Cymru). Cynhaliwyd 8 priodas ac 18 angladd / te angladd; rhwng 3 a 5 cyfarfod yn cael ei gynnal yn wythnosol gan wahanol gymdeithasau; 27 aelod o staff yn gweithio yno ar amseroedd prysur. Cytunwyd bod Plas Heli yn sicr yn hwb i'r economi leol. Nododd cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli bod gwaith tirlunio ym maes parcio'r lan môr a'r cei ynghyd â gwella'r draeniad wedi ei gwblhau ac y byddai 3 polyn fflag yn cael ei symud i fynedfa Plas Heli i wella'r lliw. **Awgrymwyd bod angen mwy o arwyddion i gyfeirio ymwelwyr / trigolion at y caffi.**

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 8. DIWEDDARIAD AR FATERION COD DIOGELWCH A CHARTHU

- Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd
  Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgorau Ymgynghorol bod eitem ar y Cod Diogelwch yn destun eitem agenda pob cyfarfod o'r Pwyllgorau Ymgynghorol cyflwynwyd

diweddariad ar y materion cod diogelwch. Eglurwyd bod y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl systemau diogelwch yr harbyrau yn cyd-fynd a gofynion y cod, disgwyliadau cwsmeriaid a chydymffurfio a gofynion Iechyd a Diogelwch.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Prif Archwiliwr Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau wedi cynnal adolygiad dilynol o drefniadau a systemau diogelwch harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn Mawrth 2019. Cafwyd cadarnhad bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r disgwyliadau. Amlygwyd nad oedd unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr, hyd yma yn 2019.

- **Carthu**
  Yn dilyn gwahoddiad am dendrau ar 'Gwerthwch i Gymru', adroddwyd bod y gwaith o adnewyddu Grwyn y Crud wedi ei gynnig i gwmni Jennings am oddeutu £225,000. Nodwyd, er cwblhau'r gwaith rhagbaratoi angenrheidiol ar gyfer cyflwyno cais am drwydded forol i Gyfoeth Naturiol Cymru, nid oedd y drwydded wedi ei derbyn (er bod drafft o'r cadarnhad wedi ei dderbyn). Atgoffwyd yr Aelodau ei fod yn hanfodol derbyn Trwydded Forol oherwydd bod ôl troed y grwyn yn ymestyn ymhellach na'i ôl troed presennol. Nodwyd nad oedd bwriad ymestyn y trwyn (byddai hyn yn golygu costau ychwanegol a chyfyngiad amser o hyd at 10 mlynedd). Ategwyd bod y cynllun yn ddyluniad da a'r newyddion yn galonogol. Bydd y grwyn gwreiddiol yn cael ei chwalu a'r grwyn newydd yn cael ei hadeiladu o garreg.

  Mewn ymateb i'r cynllun datganwyd siom nad oedd modd strwythuro ac ehangu trwyn y grwyn fel datrysiad delfrydol ac yn unol â'r wir angen. Er yn derbyn bod angen dechrau ar y gwaith, awgrymwyd hefyd ceisio cynllunio ymlaen ar gyfer datrysiad tymor hir. **Cynigiwyd cysylltu gyda'r Aelod Cynulliad Dafydd Elis Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (etholaeth Dwyfor a Meirionnydd) i dynnu sylw at reolau caeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd a rhwystrau mewn deddfau a pholisïau amgylcheddol ar gyfer adeiladu grwyn effeithiol. Ategwyd bod yr Harbwr yn adnodd gwerthfawr i ddenu twristiaid i'r ardal ac o fudd economaidd i'r Sir.**

- Lagŵn Distyllu
  Amlygwyd bod oddeutu 18,000 ciwb o waddod wedi ei garthu o fasn y sianel ar harbwr a bod angen ystyried dulliau amgen o'i waredu cyn dechrau'r ymgyrch nesaf.

- Gwaith Carthu
  Bod cwmni 'Royal Smals' wedi cwblhau'r gwaith carthu yn y sianel fordwyo ac ym masn yr Hafan/Plas Heli. Adroddwyd mai £140,000 oedd pris y gwaith - y cwmni wedi gweithio mewn dull effeithiol a didrafferth heb amharu ar waith yr harbwr mewn unrhyw ffordd.

- Tomen Dywod
  Adroddwyd bod y domen dywod ger ceg yr Harbwr bron yn llawn ac nad oedd modd ymgymryd ag unrhyw waith carthu sylweddol ychwanegol hyd fod y tywod a gro wedi ei waredu o'r safle. Nodwyd bod y Cyngor yn y broses o hysbysebu cyfleoeddi gwmnïau brynu'r tywod drwy 'Gwerthwch i Gymru'. Nodwyd hefyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ail leoli'r tywod ar draethau cyfagos Abererch a Thraeth Cruggan. Ategwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai'n gorfod symud y tywod pe bae'r penderfyniad i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiadau.**

## 9. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Derbyniwyd diweddariad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ar adolygiad model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan. Nodwyd, er bod yr amserlen wedi llithro rhyw faint, bod Strategic Leisure bellach wedi cwblhau'r adolygiad a bod y prif argymhellion wedi eu derbyn. Adroddwyd bod yr argymhellion hynny yn cael eu trafod gydag Adrannau Cyfreithiol ac Eiddo'r Cyngor. Y cam nesaf fydd trefnu cyfarfodydd gyda'r sefydliadau hynny sydd wedi cyfrannu i'r adolygiad er mwyn trafod y prif gasgliadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ymgynghorol er mwyn cael cyflwyniad o'r prif gasgliadau.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a gwneud cais i'r Adran drefnu cyfarfod gydag Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol i dderbyn prif gasgliadau'r adolygiad**

## 10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth, 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.45pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **16 Mawrth 2021** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Harbwr Pwllheli** |

**Cyflwyniad**

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2021, ac i gael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr. Mae'n drueni y bu'n rhaid canslo cyfarfodydd mis Mawrth a Hydref 2020, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

**Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Mae’r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu fel bo’n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

Yn dilyn archwiliad trylwyr o God Diogelwch Morol Porthladdoedd Gwynedd a'r system rheoli diogelwch gysylltiedig gan archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau y llynedd, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu anfon llythyr cydymffurfio gyda'r cod at yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Cwblheir hyn ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch gan yr Unigolyn Dynodedig.

**Carthu**

Dyfarnwyd y contract carthu cyfun sy'n cynnwys carthu basn dwyreiniol Doc Victoria yng Nghaernarfon a gwaith carthu i'r sianel ddynesu yn harbwr Pwllheli i Royal Smalls. Roedd y cwmni hefyd yn rhan o'r ymgyrch garthu flaenorol ym Mhwllheli.

Roedd y contract i fod i ddechrau ym mis Ionawr ond oherwydd cyfyngiadau argyfwng C-19 Rhyngwladol a osodwyd ar deithio mae hyn wedi effeithio ar y rhaglen waith yn sylweddol. Mae'r uned forwrol mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Ymgynghorwyr a'r contractwyr er mwyn mesur beth sy'n debygol o gael ei gyflawni yn 2021. Ar hyn o bryd, y posibiliadau yw y gellir dechrau ar y gwaith yng Nghaernarfon yn ystod mis Ebrill ac ym Mhwllheli tua diwedd Ebrill i ddechrau Mai. Byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ran-ddeiliaid am y datblygiadau.

O ran Pwllheli, mae gan y Lagŵn Ddistyllu wreiddiol bresennol gapasiti o 4,000 $m^3$ ar ôl. Y nod yw tynnu 10,000 $m^3$ o'r sianel ddynesu. Bydd peth silt yn gallu setlo yn y lagŵn cyfagos ar y ffordd wrth ymadael am y bibell tynnu dŵr. Bydd y deunydd gaiff ei garthu gan y peiriant carthu yn nes at fynedfa'r harbwr yn cael ei adael ar dir a ddefnyddir i storio deunydd sydd wedi'i garthu o fynedfa'r

harbwr.  Aseswyd y bydd y deunydd yma'n addas i dynnu dŵr o'r ardal yma oherwydd maint a phwysau'r gronynnau.

**Materion Ariannol.**

Cyflwynir crynodeb bras o gyllideb yr Hafan a'r harbwr a chyflwynir y sefyllfa ariannol yn y cyfarfod.  Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith fawr ar yr incwm gafwyd o'r harbwr.  Yn unol â chyfarwyddiadau Cabinet Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn y ffi angorfeydd am gyfnod yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021.

Yn ystod 2020/21, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol i'r isod;

Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd

Archwilio a chynnal a chadw cyfleusterau pontŵn ac angorfeydd

Cynnal a chadw a gweithredu peiriannau a chychod

Cynnal a chadw tiroedd, strwythurau a chelfi stryd

Cynnal a chadw a phrynu offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch PPE

**Ffioedd a Thaliadau. 2021/22.**

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn aros am gadarnhad o safbwynt y darpar ffioedd a'r taliadau ar gyfer yr Hafan a Harbwr Pwllheli ynghyd â ffioedd lansio i Gychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol am y tymor 2021/22.  Rhagwelir y bydd ffioedd yr Hafan yn aros fel y maent gyda 0% o gynnydd ond gyda thaliadau trydan yn codi o 4%.  Bydd ffioedd yr harbwr yn codi yn ôl pris chwyddiant o 2%.  Bydd ffioedd lansio a chofrestru yn parhau fel y maent yn dilyn cynnydd o 100% yn 2020/21. Bydd cynnydd mewn storio ar y tir, cychod ymweld a storio dros y gaeaf fel a nodwyd yn y rhestr ddrafft o ffioedd a thaliadau.  Bydd y tocyn Parcio a Lansio yn destun adolygiad yn 2021 a bydd taliadau efallai yn cael eu newid i adlewyrchu defnyddio'r cyfleuster a'r angen i gyfrannu tuag at waith cynnal a chadw'r harbwr.

**Eitemau Gweithredol**

Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle.  Yn ddiweddar, bu Tŷ'r Drindod yn archwilio'r holl Gymhorthion Mordwyo a chadarnhawyd bod y cwbl yn unol â'u gofynion.

Bydd Bwi Fairway Pwllheli yn cael ei newid gyda Bwi Fairway yr haf yn ystod y mis nesaf; mae diamedr y bwi yma'n fwy na bwi'r gaeaf.  Yn ystod misoedd yr haf, caiff y bwi gaeaf ei wasanaethu er mwyn ei ailosod yn ei le ym mis Hydref. Bydd bwiau marcio Cyfyngiadau Cyflymder yn eu lle yng ngheg yr harbwr mewnol, yn barod ar gyfer 1 Mai, 2021.

Nid oes unrhyw "Rybudd i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

**Cei Tanwydd**

Uned Hunanwasanaeth / Disel Coch – Ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr ym mis Hydref 2019 rydym yn dal i aros am ganllaw gan Cyllid a Thollau EM (HMRC) ynglŷn â gwerthiant Disel Coch i 'gychod pleser'.  Felly, byddwn yn parhau gyda'r rhaniad 60/40 a argymhellir gan Cyllid a Thollau EM (HMRC) tan i ni dderbyn cyfarwyddyd pellach ganddynt ar y mater yma.

**Cynnal a chadw**

Mae'r gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi parhau drwy olchi y pontwns a phwêr, cynnal a chadw tirweddu ynghyd â'r gwaith hanfodol arall i sicrhau bod yr harbwr a'r marina i'r safon gofynnol a disgwyliedig.

**Staffio**

Wedi deng mlynedd ar hugain o wasanaeth clodwiw, ymddeolodd Rheolwr Cynorthwyol Hafan Pwllheli ym mis Ionawr. Hoffai'r Uned Forwrol gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i Mr Keith Williams a'i wraig Margaret yn y dyfodol gan ddiolch i Mr Keith Williams am ei ymroddiad i'r Hafan ac i harbwr Pwllheli yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

Ar hyn o bryd mae dwy swydd wag ym Mhwllheli, ac fe ragwelir y bydd dau benodiad newydd yn cael eu cadarnhau yn ystod yr wythnosau nesaf yn barod ar gyfer tymor yr haf. Mae dau aelod o staff yn parhau i fod ar absenoldeb hirdymor oherwydd rhesymau iechyd. Mae'r ddau wedi bod yn absennol am dros chwe mis.

**Ystadegau Blynyddol yr Harbwr/Hafan**

Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2020/21 yn atodol i'r adroddiad.

**Adnewyddu angorfeydd** – Rydym yn disgwyl y bydd gennym ddarlun mwy eglur am faint sydd wedi cymryd angorfeydd Pontŵn erbyn canol Ebrill.

**Hoist/Storfa gychod ar y tir** – Mae'r defnydd o hoist cychod yr Hafan yn gyson, ond fel adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Harbwr, mae'r gwagle i storio cychod ar y tir bellach yn llawn. Bydd yr ardal storio yn llawn tan ddiwedd fis Ebrill/dechrau Mai, pan fydd y cychod gobeithio yn dychwelyd i'r dŵr. Eleni, rydym wedi cyflwyno ffi ychwanegol ble bydd unrhyw gwch sydd ar y lan am fwy na cyfnod parhaus o ddwy flynedd yn gweld eu ffi storio ar y lan yn cynyddu.

Hyderir y bydd hyn yn annog perchnogion cychod i baratoi eu cychod ar gyfer y dŵr neu wneud trefniadau eraill ar gyfer storio hirdymor. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhyddhau gwagle sydd wir ei angen ar y lan i ddeilwyr angorfeydd blynyddol presennol.

**Materion Eraill**

Gorsaf dywydd newydd – Mae'r orsaf dywydd bellach yn gweithio, ac ar gael ar wefan Hafan Pwllheli i'r rhai sy'n bwriadu gwylio'r tywydd 'yn fyw' yn Hafan Pwllheli. Gellir lawr lwytho hwn hefyd fel ap ar ffôn.

**Gwe Gamera** – Oherwydd y pandemig, bu oedi wrth osod y gwe gamerâu yn yr Hafan. Ar ôl eu gosod ac unwaith y byddant yn weithredol bydd y tri chamera yn cysylltu gyda gwefan Hafan ac yn galluogi gweld delweddau byw o'r Hafan/yr Harbwr a'r fynedfa i'r sianel drwy borwr y rhyngrwyd.

**Cofrestru Cychod Pwêr /Beiciau dŵr** – dylai'r cofrestriadau fod ar gael ar-lein a bydd angen i berchnogion cychod gofrestru eu cychod a gwneud taliadau gan ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein.

**Gorsaf y Bad Achub** – cwblhawyd adeilad newydd Gorsaf y Bad Achub ac mae'r tractor newydd a'r cerbyd cludo wedi eu gosod. Deallwn bod y bad achub newydd i fod i gyrraedd ym mis Ebrill a byddant cyn bo hir yn dechrau ar y gwaith o dreialu'r bad ar y môr a hyfforddi'r criw.

**Covid- 19**

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i bawb ac mae peth ansicrwydd o hyd ynglŷn â beth a ddaw yn 2021. Mae'r Uned Forwrol yn ymdrechu i sicrhau diogelwch cwsmeriaid a staff yn ystod yr adeg anodd a heriol yma. Mae'r Harbwr cyfan wedi bod yn agored drwy'r gaeaf ac yn parhau i weithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Goriadau Cychod** – yn y blynyddoedd a fu mae goriadau cychod wedi bod yn cael eu cadw yn swyddfa'r marina os gofynnir am hyn gan berchnogion cychod. Bydd y cyfleuster yma'n galluogi contractwyr i gasglu goriadau perchnogion o dderbynfa'r Hafan. Mae hyn wedi bod yn anodd yn weithredol gan fod angen i swyddfa'r marina fod ar gael bob amser.

Er mwyn ceisio gostwng y gofyniad staffio ac fel cam pellach i amddiffyn staff y marina a'r cwsmeriaid penderfynwyd na ellid bellach cadw goriadau'r cwsmeriaid yn swyddfa'r marina.

Bydd yr Uned Forwrol yn sicrhau bod contractwyr lleol yn ymwybodol o'r newid yma a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021.

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*

## *Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations*

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli/<br>Hafan | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 73 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 Abermaw | 55 | 43 Total Boat Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 70 Abermaw | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 845 |

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*
# *Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations*

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a<br>Caerddaniel | 30 | 99 Total<br>Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total<br>Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 46 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 179 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 152 | 835 |

# *Uned Morwrol / Maritime Unit*

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| ***Aberdyfi 2020*** | ***120*** | ***47 (39.2%)*** | ***23 (48.9%)*** | ***24 (51.1%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| ***Abermaw 2020*** | ***140*** | ***31 (22.1%)*** | ***24 (77.4%)*** | ***7 (22.6%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| ***Porthmadog 2020*** | ***238*** | ***64 (26.9%)*** | ***30 (46.9%)*** | ***34 (53.1%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| ***Pwllheli 2020*** | ***81*** | ***50 (61.7%)*** | ***36 (72%)*** | ***14 (28%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| ***Hafan 2020*** | ***409*** | ***288 (70.4%)*** | ***40 (13.89%)*** | ***248 (86.11%)*** |
| | | | | |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| ***Doc Fictoria 2020*** | ***100*** | ***90 (90%)*** | ***22 (24.4%)*** | ***68 (75.6%)*** |
| | | | | |

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig*


**Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List**


| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 20** | **120** | **47** | **44** | **3** | **93.6% Pwer<br>6.4% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 20** | **140** | **31** | **21** | **10** | **67.7% Pwer<br>32.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer<br>67.7% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 20** | **238** | **64** | **22** | **42** | **34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer<br>47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 2020** | **81** | **50** | **23** | **27** | **46% Pwer<br>54% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer<br>52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer<br>55.5% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 2020** | **409** | **288** | **140** | **148** | **48.6% Pwer<br>51.4% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer<br>65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 2020** | **100** | **90** | **26** | **64** | **28.9% Pwer**<br>**71.1% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| **Cyfanswm 2020** | **1088** | **570** | **276** | **294** | **48.4% Pwer**<br>**51.6% Hwylio** |


## Ystadegau Blynyddol *Hafan* *Pw*
## Annual Statistics for *Hafan* *Pw*














400
200
0
2012
2013
2014
2015
2016
Hyd at Chwefror 2021



Cyfanswm medr cychod ymwelwyr -
80000
70000
60000
50000
40000
30000
20000
10000
0
38707
40771
32451
46382
5219
2012
2013
2014
2015
2016
Hyd at Chwefror 2021



Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa
80
70
60
50
40
30
20
10
0
76
76
74
74
0
2013
2014
2015
2016
2017


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No.
250
227
205
181


200
150
100
50
0
180
153
169
149
153
155
137
154
138
2010
2011
2012
2013
2014
2015


Preswyl yng Ngwynedd/Res
350
300
250
200
150
100
50
0
303
285
264
234
244
236
232
105
78
75
68
50
56
55
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016


Gwerthiant Petrol/Disel - F
160000
140000
120000
100000
80000
60000
40000
20000
137824
101526
139532
140790
125775
153991
130469
93403
137972




**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel**


***Analysis of why resident bertholders leave 1st April***


| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Wedi gwerthu cwch/sold boat** | 20 | 7 | 13 |
| **Ardal newydd/New Cruising Ground** | 26 | 8 | 7 |
| **Parcio a lansio/Park and Launch** | 0 | 3 | 4 |
| **Dim rheswm/No reason given** | 17 | 16 | 14 |
| **Rhu ddrud/Too expensive** | 3 | 1 | 1 |
| **Ariannol/Financial reasons** | 2 | 2 | 0 |
| **Iechyd/Ill health** | 4 | 8 | 2 |
| **Blwyddyn allan/Year out** | 3 | 5 | 2 |
| **Carthu/Dredging** | 4 | 0 | 0 |
| **Corona Virus** | | | |
| | | | |
| | | | |
| **Cyfanswm/Total** | **0** | **50** | **43** |


**Hyd at Chw**
**Up to Febr**


## Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli*
## Annual Statistics for *Pwllheli Harbour*


**Nifer o Gychod Blynyddol - Number of anr**






**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel**

*Analysis of why resident bertholders leave 1st April*


| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Wedi gwerthu cwch/sold boat** | 3 | 4 | 0 |
| **Ardal newydd/New Cruising Ground** | 0 | 0 | 17 |
| **Parcio a lansio/Park and Launch** | 0 | 0 | 0 |
| **Dim rheswm/No reason given** | 0 | 0 | 12 |
| **Rhu ddrud/Too expensive** | 0 | 0 | 0 |
| **Methdalwr/Bankrupt** | 0 | 0 | 0 |
| **Iechyd/Ill health** | 0 | 0 | 0 |
| **Blwyddyn allan/Year out** | 0 | 0 | 0 |
| **Carthu/Dredging** | 0 | 0 | 0 |
| **Coronavirus** | | | |
| | | | |
| | | | |
| **Cyfanswm/Total** | **3** | **4** | **29** |


**Hyd at Chwefror 2021**


**Up to February 2021**


*vllheli* - i Mawrth 2021

*vllheli* - to March 2021











Up to February 2021

Total mts visiting vessels






Up to February 2021


- No. of vessels on the Expressions of Interest






of sailing/power vessels in the Hafan




150 138
162 144
150 142
166 133
115 124
2016
2017
2018
2019
2020
Pwer/Power


siding In Gwynedd
249
236
242
224
57
56
57
15
2017
2018
2019
2020
Gwynedd
Non Gwynedd


Petrol/Diesel sales
Petrol
Diesel
134783
106765
129984
95166
77373
106078
92777
98620
43639




- 1taf Ebrill i 28ain o Chwefror

*to 28th February*


| 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 9 | 11 | 10 | 10 | 18 |
| 5 | 8 | 3 | 2 | 2 | 4 |
| 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | 13 | 8 | 2 | 1 | 10 |
| 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 4 | 9 | 3 | 2 | 1 | 2 |
| 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | 8 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **28** | **41** | **25** | **41** | **16** | **44** |

vefror 2021


uary 2021


## - i Mawrth 2021
## -  to March 2021


**ıual Resident vessels**





**yddol - Total metres Resident boats**






**l - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth**

***to 31st March***


| 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| 2 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | 0 |
| | | | | |
| | | | | |
| **6** | **1** | 0 | 1 | 0 |


# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2020


## COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2020


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **31** | **216.31** | **6.98** | **27.71** | **0.89** |
| **Aberdyfi** | **47** | **301.02** | **6.4** | **30.01** | **0.64** |
| **Porthmadog** | **64** | **511.93** | **8** | **63.59** | **0.99** |
| **Pwllheli** | **50** | **341** | **7.5** | **38.11** | **0.80** |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | **192** | **1370.26** | **28.88** | **159.42** | **3.32** |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | **48** | **342.57** | **7.22** | **39.86** | **0.83** |


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.







# HARBWR PWLLHELI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 87 | 58 | 60 | 55 | 58 | **50** |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total LOA | 619 | 463 | 457 | 416 | 425 | **341** |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 7.11 | 7.98 | 7.62 | 7.56 | 7.32 | **7.5** |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 62.72 | 55.54 | 53.58 | 49.11 | 47.52 | **38.11** |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.72 | 0.96 | 0.97 | 0.89 | 0.81 | **0.80** |


Nifer o Gychod / Number of Boats





Cyfanswm Hydoedd / Total Length





Cyfartaledd Hyd / Average Length




Cyfanswm Dyfnder / Total Draught





Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught





# HARBWR ABERDYFI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 77 | 79 | 78 | 74 | 68 | 47 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 520.12 | 524.10 | 515.02 | 480.92 | 451.96 | ***301.02*** |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 6.75 | 6.63 | 6.60 | 6.50 | 6.65 | ***6.4*** |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 58.79 | 57.36 | 58.60 | 50.91 | 46.54 | ***30.01*** |
| **Cyfartaledd Dyfnder /** Average Draught | 0.76 | 0.73 | 0.75 | 0.69 | 0.68 | ***0.64*** |







# HARBWR ABERMAW HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics

| | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod** / Number of Boats | 93 | 88 | 86 | 69 | 70 | 31 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 671.20 | 627.64 | 602.63 | 493.36 | 512.00 | ***216.31*** |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 7.21 | 7.13 | 7.01 | 7.15 | 7.31 | ***6.98*** |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 82.89 | 77.96 | 74.56 | 61.21 | 65.13 | ***27.71*** |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.89 | 0.86 | 0.87 | 0.89 | 0.93 | ***0.89*** |


**Nifer o Gychod / Number of Boats**





**Cyfanswm Hydoedd / Total Length**





**Cyfartaledd Hyd / Average Length**




**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**




**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**



# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR

## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 140 | 129 | 135 | 131 | 130 | 64 |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total Overall Length | 1150.60 | 1055.12 | 1098.58 | 1055.13 | 1030.04 | ***511.93*** |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 8.22 | 8.18 | 8.14 | 8.05 | 7.92 | ***8*** |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 137.69 | 127.50 | 133.18 | 131.01 | 128.80 | ***63.59*** |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.98 | 0.99 | 0.99 | 1.00 | 0.99 | ***0.99*** |

